

## Tab Gwybodaeth i Gleifion ar gyfer CGUT awtistiaeth

### ***Adnabod awtistiaeth mewn plant a phobl ifanc***

Mae gan dros 1 o bob 100 o bobl yn DU awtistiaeth, sef cyflwr sy'n effeithio ar sut mae pobl yn ymddwyn, cyfathrebu a rhyngweithio ag eraill. Gall arwyddion o awtistiaeth amrywio'n fawr, hyd yn oed yn yr un plentyn ar gamau gwahanol o'i ddatblygiad, felly gall fod yn anodd ei adnabod. Gellir colli diagnosis hefyd mewn plant sydd â chyflyrau eraill megis anabledau dysgu neu ADHD (anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd) – er ei fod yn fwy cyffredin ymhlith y plant hyn.

Rydym am sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i blant a phobl ifanc ag awtistiaeth a'u teuluoedd drwy sicrhau'r canlynol:

- bod meddygon a gweithwyr proffesiynol eraill yn adnabod arwyddion o awtistiaeth
- y caiff eich plentyn ei atgyfeirio at dîm awtistiaeth arbenigol lleol i gael asesiad a chymorth – dylai hyn gynnwys pediatregydd, therapydd lleferydd ac iaith a seicolegydd clinigol neu addysgol
- y cynhelir asesiad llawn ac y caiff y canlyniadau eu hegluro i chi
- bod eich tîm awtistiaeth yn siarad â chi am rannu'r wybodaeth hon ag athrawon eich plentyn, eich meddyg teulu ac unrhyw weithwyr proffesiynol eraill sy'n cefnogi eich plentyn.

### **Gweithio gyda theuluoedd**

Dylai timau awtistiaeth sy'n gweithio gyda theuluoedd yn ystod yr asesiad a'r diagnosis roi gwybodaeth glir i chi a gwranddo'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylent hefyd wneud y canlynol:

- dewis aelod o'r tîm i fod yn brif gyswllt i chi ac ateb eich cwestiynau neu bryderon yn ystod yr asesiad

- rhoi gwybodaeth a chymorth i chi os caiff eich plentyn ddiagnosis o awtistiaeth, a threfnu ymweliad dilynol o fewn 6 wythnos i siarad am yr hyn a fydd yn digwydd nesaf
- dweud wrthyh am wasanaethau lleol, megis grwpiau cymorth a ble i gael cyngor am fudd-daliadau.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr proffesiynol.

Darllenwch newyddion NICE i ddysgu sut y bydd y canllaw hwn o gymorth.

Dilynwch ni ar [Twitter](#) a [Facebook](#).

### **Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?**

Mae gan [NHS Choices](#) ragor o wybodaeth am awtistiaeth.

Dewch o hyd i'ch grŵp [Gwarchod lechyd](#) lleol agosaf.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- [Ambitious about Autism](#)
- [Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth](#), 0808 800 4104

Efallai y bydd y sefydliadau canlynol yn ddefnyddiol hefyd.

- [Ymddiriedolaeth Addysg Awtistiaeth \(AET\)](#), 0207 903 3650
- [Mencap](#), 0808 808 1111

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Gwnaethom ysgrifennu'r canllaw hwn gyda phobl y mae awtistiaeth wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.